Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CYFFORDD 5 (CYFNEWIDFA FFORDD YR WYDDGRUG) I GYFFORDD 6 (CYFNEWIDFA GRESFFORDD), BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2015

MAE GWEINIDOGION CYMRU, wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar neu gerllaw cefnffordd yr A483 rhwng Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) a Chyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, a ddynodir yn briodol gan arwyddion traffig, yn dod i rym ar 9 Chwefror 2015 ac yn weithredol fel y bo'n ofynnol yn ystod oriau'r nos (rhwng 20:00 a 06:00 o'r gloch) tan 28 Chwefror 2015 neu hyd nes symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro. Ni chaeir y ddwy gerbytffordd yr un pryd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar hyd:

i. prif gerbytffordd yr A483 tua'r gogledd rhwng dechrau'r slipffordd ymadael tua'r gogledd yng Nghyffordd 5 a chanolbwynt y drosbont ogleddol yng Nghyffordd 6; a

ii. phrif gerbytffordd yr A483 tua'r de rhwng dechrau'r slipffordd ymadael tua'r de yng Nghyffordd 6 a chanolbwynt y danbont ddeheuol yng Nghyffordd 5.

Bydd y llwybr amgen ar gyfer traffig tua'r gogledd o Gyffordd 5 yn dilyn yr A541 Ffordd yr Wyddgrug tua'r de-ddwyrain, Grosvenor Road ac i'r gogledd ar yr A5152 Ffordd Caer i ailymuno â'r A483 yng Nghyffordd 6: ac i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig tua'r de o Gyffordd 6.

Er mai yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod hwyaf o 12 mis fel mesur wrth gefn rhag ofn y bydd angen ad-drefnu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Dewiser: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2015).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 5 (MOLD ROAD INTERCHANGE) TO JUNCTION 6 (GRESFORD INTERCHANGE), WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2015

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Junction 5 (Mold Road Interchange) and Junction 6 (Gresford Interchange), Wrexham County Borough.

The prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force on 9 February 2015 and operate overnight, as required (20:00 – 06:00 hours) until 28 February 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Both carriageways will not be closed simultaneously.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding along:

i. the main northbound carriageway of the A483 between the start of the northbound exit slip road at Junction 5 and the centre-point of the northern over-bridge at Junction 6; and

ii. the main southbound carriageway of the A483 between the start of the southbound exit slip road at Junction 6 and the centre-point of the southern under-bridge at Junction 5.

The alternative route for northbound vehicles from Junction 5 will be via the south-eastbound A541 Mold Road, Grosvenor Road and northbound A5152 Chester Road to re-join the A483 at Junction 6: vice versa for southbound vehicles from Junction 6.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2015).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE